# YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

**Ein Gweledigaeth ...... Mae Sir Gaerfyrddin yn gymuned lle mae plant yn ddiogel ac yn cael magwraeth dda a phob un o'n dysgwyr yn cael eu cefnogi i wireddu eu gallu addysgol**

# YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN

# NEWID CATEGORI IAITH O GATEGORI 2A I GATEGORI CC

# DOGFEN YMGYNGHORI


**Robert Sully**

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Diogelu Plant a Gwella Safonau Addysg i Bawb

**Adran Moderneiddio Ysgolion**
**Simon Davies, Rheolwr Moderneiddio Ysgolion (ffôn. 01267 246471)**
**Statws y Ddogfen:  Terfynol**

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras, Braille neu dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant.
01267 246471

| Fersiwn | Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|---|
| 0.1 | Drafft cychwynnol i ystyriaeth | 03/03/15 |
| 0.2 | Newidiadau ychwanegol i'r drafft gwreiddiol | 05/05/15 |
| 0.3 | Newidiadau ychwanegol i'r ail ddrafft yn dilyn y cyfarfodydd ymgynghori | 15/06/15 |
| 0.4 | Newidiadau ychwanegol i'r trydydd drafft yn dilyn y cyfarfodydd ymgynghori | 18/06/15 |


# Rhagair

Fel rhan o'i ddyletswydd statudol i gadw'r nifer a math o leoliad ysgolion o dan sylw, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadau rhaglen eang a luniwyd i wella adeiladau ysgolion a chyfleoedd ar gyfer dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisïau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cofleidio y gofyniad i ddarparu gwasanaethau, i gadw safonau clir - o ran costau ac ansawdd - yn y modd mwyaf economaidd ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella yn barhaus ar y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n rhaid i ni wneud y gorau o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor a pharhau i weithio mewn partneriaeth gyda phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses o ddysgu a lles y disgyblion a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol i wasanaethu anghenion y gymuned drwy gydweithio.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi ei bendithio gyda llawer o arweinwyr addysg ac athrawon galluog iawn, ond mae'r newidiadau parhaus i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i gwrdd â gofynion amrywiol pob plentyn. Er bod y prosesau o ddysgu a sgiliau addysgu yn bwysig iawn, mae gwybodaeth bynciol ddofn ar ran yr athro/athrawes yn hanfodol i sicrhau bod y dysgwyr yn darganfod a datblygu eu talentau yn llawn.

Disgwylir i ysgolion gynllunio i ateb y galw i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ansawdd uchel ac addysgu ysbrydoledig. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cael eu paratoi yn iawn i wella cyfleoedd ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol, datblygiad cynaladwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd. Mewn termau ymarferol, mae angen i ni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth, gydag ysgolion wedi eu sefydlu yn y lleoliadau cywir gyda chyfleusterau addas i wasanaethu anghenion yr holl ddysgwyr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys partïon a nodir sydd â diddordeb. Bwriad yr wybodaeth a nodir yn y ddogfen hon yw egluro'r cynigion ar gyfer eich ysgol a chefnogi'r broses ymgynghori.



Robert A Sully
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

# Cynnwys


| Rhif. | Pwnc | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Y Cefndir | 1 |
| 3. | Y Cynnig | 9 |
| 4. | Ymgynghori a'r Broses Statudol | 11 |
| 5. | Y Casgliad | 14 |
| 6. | Atodiad A – Asesiad o'r effaith ar yr Iaith Gymraeg | 14 |
| 7. | Atodiad B – Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb | 15 |
| 8. | Atodiad C – Profforma Ymateb | 24 |

# 1. Cyflwyniad

Mae'n fwriad gan Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin i symud ymlaen yn naturiol i newid categori iaith yr ysgol o fis Medi 2016. I gyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg Sir Gaerfyrddin, dymuniad yr ysgol yw symud ar hyd y continiwwm iaith gan ymateb i ddymuniad y Cyngor i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.

Nod y ddogfen hon yw hyrwyddo y broses ymgynghori drwy egluro'r dewis a ffafrir gan yr Awdurdod ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Bydd y broses ymgynghori ar y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, yn cynnwys llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni fel y nodwyd yn Y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013).

Y bwriad yw rhoi'r newidiadau ffurfiol ar waith o ddechrau Tymor yr Hydref 2016.

Prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu sylwadau'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb. Efallai y carech ddefnyddio'r Profforma ymateb a geir yn **Atodiad C** ar dudalen 24 y ddogfen hon i gyflwyno'ch ymateb.

# 2. Y Cefndir

Ysgol Categori 2A Dwyieithog yw Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar hyn o bryd. Y disgrifiad o gategori 2A yn y ddogfen Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yw *'Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn unig i bob disgybl. Addysgir un neu ddau o bynciau i rai disgyblion yn Saesneg neu'r ddwy iaith.'* Dymuniad y Cyngor a'r ysgol yw newid y categori i gategori CC sef Cyfrwng Cymraeg. Disgrifiad o ysgol categori CC yw *'Addysgir pob pwnc heblaw Saesneg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i bob disgybl. Gall rhai ysgolion gyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.'*

Ers blynyddoedd bellach mae'r ysgol wedi symud yn naturiol i'r cyfeiriad hwn gan symud ar hyd y continiwwm iaith i gyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-17 fel y'i diffinir gan Lywodraeth Cymru. Bellach nid oes unrhyw ddisgybl yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg ym mlynyddoedd 7 i 10 a dim ond un grŵp o ddisgyblion sydd wedi dewis astudio Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg ym mlwyddyn 7. Mae'r newid wedi digwydd yn organig dros gyfnod o flynyddoedd ac mae'n synhwyrol, felly, i symud ymlaen ymhellach gan sefydlu'r ysgol gategori CC gyntaf yn Sir Gâr.

## 2.1 Niferoedd


Yn y tabl isod nodir rhif y disgyblion sy'n astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar hyn o bryd.


| | Maths | | Gwydd | |
|---|---|---|---|---|
| | Cym | Saes | Cym | Saes |
| | | | | |
| 7 | 137 | 0 | 107 | 30 |
| 8 | 159 | 0 | 105 | 54 |
| 9 | 128 | 0 | 88 | 40 |
| 10 | 132 | 0 | 84 | 48 |
| 11 | 121 | 10 | 77 | 44 |
| 12/13 | 46 | 33 | 48 | 58 |

Mae'r newid i'w weld yn amlwg uchod a hynny'n dyst bod y galw gan rieni am ddarparu'r pynciau trwy gyfrwng y Saesneg yn lleihau.


Mae'r graffiau ar y tudalennau canlynol yn dangos y newid dros y blynyddoedd ers y flwyddyn 2000 o ran y canran o ddisgyblion sy'n astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.


## Mathemateg ers 2000



## Gwyddoniaeth ers 2000




Dros draul 15 mlynedd, felly, mae’r canran sydd wedi dewis dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg wedi disgyn yn raddol yn hollol organig trwy ddewis rhieni a disgyblion.

## 2.2 Safonau

Dengys y tabl isod ganlyniadau diwedd CA4 y ddau bwnc yn y ddwy iaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

| | 2014 | | 2013 | | 2012 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cym | Saes | Cym | Saes | Cym | Saes |
| Mathemateg CA4 – A*- C % | 80.4 | 41.7 | 81 | 63 | 85.8 | 52.6 |
| Gwyddoniaeth CA4 – A* - C % | 78.9 | 78.7 | 81.1 | 77.2 | 89.5 | 81.9 |

Dengys y canrannau llwyddiant bod disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn cyflawni'n well wrth astudio'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg na'r Saesneg. Mae hyn yn brawf pellach y byddai newid y categori yn sicrhau cadw'r safonau uchel sydd wedi eu hamlygu dros y blynyddoedd diwethaf. O ran canlyniadau TGAU Saesneg Iaith, nid oes angen pryderu chwaith gan bod canlyniadau'r ysgol yn uwch na'r ganran lleol a chenedlaethol.

## 2.3 Dewisiadau eraill a ystyriwyd.

Wrth benderfynu ar ddewis a ffafrir, ystyriwyd y dewisiadau canlynol:

### 2.3.1 Y sefyllfa bresennol – cadw'r ysgol ar ei ffurf bresennol.

Gan bod newid organig wedi ei amlygu yn yr ysgol yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod i ystyried hynny ac i weithredu ar argymhellion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-2017. Yr argymhellion a wneir yn y ddogfen yw y dylai y Cyngor Sir gefnogi unrhyw ysgol Uwchradd sy'n dymuno symud ar hyd y continiwwm iaith er mwyn sicrhau twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir. Ni fyddai cadw'r sefyllfa bresennol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn cael ei ystyried yn ddewis addas felly o ystyried gweledigaeth y Cyngor Sir.

### 2.3.2 Newid categori iaith yr ysgol i gategori CC

O ystyried y dystiolaeth a'r data pynciol mae symud ymlaen i newid categori iaith yr ysgol i gategori CC yn synhwyrol a rhesymol.

## 2.4 Effaith y cynnig ar drefniadau llywodraethu a phwerau'r corff llywodraethu mewn perthynas â pholisïau a threfniadau derbyn.

Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar drefniadau llywodraethu.

## 2.5 Effaith y cynnig ar y staff

Ym Mro Myrddin mae yma athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth o'r radd flaenaf, sy'n sicrhau canlyniadau ardderchog cyson mewn arholiadau allanol. Maent yn llwyr


ymroddedig yn eu gwaith ac mae'r ddwy adran yn hyderus yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddwy adran wedi eu llwyr argyhoeddi y dylid addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig er mwyn cynnal a chodi safonau o fewn yr adrannau. Mae hyn bellach yn digwydd yn yr Adran Fathemateg a'r canlyniadau ardderchog sy'n uwch na chanlyniadau'r Sir, canlyniadau'r teulu a chanlyniadau Cymru yn dyst bod addysgu trwy un iaith yn unig yn sicr yn fanteisiol. Mae'r ddwy adran o'r farn bod cyflwyno'r pynciau trwy gyfrwng un iaith yn unig yn decach i'r disgyblion a'r adran. Yn ychwanegol, mewn cyfnod lle mae pryder am gydbwysedd gwaith a chartref i athrawon mae datblygu adnoddau dysgu yn y Gymraeg a Saesneg yn ychwanegu at y pwysau gwaith.

## 2.6 Y ddarpariaeth arfaethedig

Y cynnig yw, o'r 1af o Fedi 2016 y bydd pob un o'r disgyblion a fydd yn ymuno â chymuned Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ymhob pwnc ac eithrio Saesneg. Ni fydd disgyblion presennol yr ysgol yn cael eu heffeithio o gwbl gan y newidiadau. Yn y blynyddoedd canlynol, hynny yw, 2017, 2018 ac yn y blaen bydd y cyfrwng dysgu drwy'r Gymraeg yn symud fesul blwyddyn i fyny'r ysgol.

O dan y drefn newydd y Gymraeg fydd cyfrwng y dysgu ym Mathemateg a Gwyddoniaeth ond darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a thechnoleg gwybodaeth cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, mathemategol a gwyddonol y disgyblion. Mewn gwirionedd, model o ddysgu dwyieithog yw'r hyn a ddisgrifir.

Dengys y daflen, ar y dudalen ganlynol, y drefn sydd eisoes wedi ei fabwysiadu yn yr Adran Fathemateg ers 5 mlynedd ac yn yr Adran Wyddoniaeth ers blwyddyn. Bydd pob gwers 60 munud yn cael ei threfnu yr un fath yn y ddau bwnc. Am y 6 munud cyntaf fe fydd cyflwyniad yn y Gymraeg a'r Saesneg o'r holl dermau a'r cysyniadau Mathemategol a Gwyddonol a ddefnyddir yn y wers. I ddilyn am 48 munud, Cymraeg fydd prif gyfrwng y wers o ran y dysgu a'r addysgu. Yna am 6 munud, i gloi'r wers, bydd casgliad dwyieithog er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn deall cynnwys y wers. Fe fyddwn ni, felly, yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pwnc trwy gyfrwng y ddwy iaith. Bydd y model yma yn fodd i ddatblygu dwyieithrwydd cyflawn y disgyblion gan sicrhau eu bod yn hyderus yn y ddwy iaith. O ran y drefn hon, bydd elfen gref o drawsieithu'n digwydd lle bydd disgyblion yn ystyried y cynnwys pynciol yn y ddwy iaith, a bydd hyn yn fodd i atgyfnerthu eu deallusrwydd o gysyniadau mathemategol a gwyddonol.




## 2.7 Safonau'r ysgol

Fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion mae Estyn yn comisiynu adolygiad o bob ysgol. Cynhaliwyd yr arolygiad diweddaraf ym mis Rhagfyr 2009 a gall ymgyngorion weld y canfyddiadau naill ai ar wefan Estyn: www.estyn.gov.uk neu cewch ofyn am gopi gan yr Awdurdod Lleol (efallai y codir tâl am ei lungopïo).

Enghreifftiwyd yr ysgol ar sawl achlysur fel enghraifft o arfer dda gan Estyn mewn cyhoeddiadau diweddar. Yn 2013 defnyddiwyd astudiaeth achos o'r ysgol i ddangos arfer dda o ran dysgu Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn dilyn hynny o dan *Arwyddbyst at arferion gorau* nodwyd cynllun arall gan yr Adran Fathemateg - *ymroddiad ac arloesedd ysgol gyfan = medrau ysgol gwell* fel enghraifft o arfer dda. Nodwyd arfer dda yr ysgol hefyd yn y ddogfen *Rhifedd ar gyfer dysgwyr 14-19 oed* (gweler copi o'r holl ddogfennau ar wefan Estyn).

Mae safonau'r ysgol yn gyson uchel yn y blynyddoedd diwethaf ac er mwyn cynnal a chodi'r safonau gwelwn taw symud yr ysgol i Gategori CC yw'r cam naturiol.

Dymuniad unfrydol y Corff Llywodraethol yw gyrru'r agenda yn ei blaen er mwyn codi safonau ymhellach.

## 2.8 System Categoreiddio Cenedlaethol Ysgolion

Cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau y System Categoreiddio Cenedlaethol Ysgolion ym mis Medi 2014. Nid yw'r system yn cael ei gyrru gan ddata yn unig ond mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth ansawdd yr arweinyddiaeth a'r addysgu a dysgu yn ein hysgolion. Ni fydd y system yn diorseddu adroddiadau Estyn, bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion ac yn darparu gwiriad allanol ar y system gategoreiddio ysgolion wrth arolygu.

Mae'r system newydd yn gwerthuso ac yn asesu ysgolion ac yn eu rhoi mewn categori cefnogaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth ganlynol:

- Amrywiaeth o fesurau perfformiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru
- Hunanwerthuso cadarn gan yr ysgol ar ei gallu i wella mewn perthynas ag arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu
- Asesiad o hunanarfarnu'r ysgol gan ymgynghorwyr her yn y consortia rhanbarthol a gytunwyd gan yr awdurdod lleol.

Bydd y system gategoreiddio newydd yn rhoi darlun clir a theg o gynnydd yr ysgol. Mae proses dair cam wrth gynhyrchu categori i ysgol, yn gyntaf ar ôl i'r data perfformiad a hunan-arfarnu gael eu dadansoddi mae categori cefnogi drafft yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob ysgol. Mae'r categori hwn yn cael ei drafod gyda'r ysgol gan gonsortia rhanbarthol ac yna yn cael ei gytuno gyda'r awdurdod lleol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

### System Gategoreiddio Cenedlaethol Ysgolion - Data 2014

| Ysgol | Grŵp Safonau | Capasiti gwelliant | Categori Cefnogaeth |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin | 2 | B | Melyn |

# 3. Y Cynnig

## 3.1 Y Rhesymeg dros Newid

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wedi gweld cynnydd aruthrol yn y disgyblion sy’n dewis astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Fel y nodwyd eisoes, nid oes unrhyw ddisgybl o flwyddyn 7 i 10 yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg a dim ond 10 disgybl sy’n astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg ym mlwyddyn 11. O ran Gwyddoniaeth mae 75.2% o’r disgyblion wedi dewis astudio’r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg o flwyddyn 7 i 11. Mae’n gam naturiol, felly, i symud ymlaen i ddysgu pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg ym Medi 2016 i flwyddyn 7 yn unig gan barhau i gynnig yr un opsiwn i ddisgyblion bl 7 Medi 2017, 2018 ac yn y blaen.

Byddai sefydlu grwpiau Cymraeg yn unig yn sicrhau bod y disgyblion yn cael eu gosod mewn grwpiau o’r un gallu ac, felly, yn academaidd fe fyddai hynny’n fanteisiol. Fe fyddai’r grwpiau yn adlewyrchu gallu'r disgybl ar draws y garfan gyfan yn hytrach na dim ond ar draws y cyfrwng. Mae setiau cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol o gynnwys disgyblion o allu cymysg iawn ac felly gall disgybl fod o dan anfantais.

## 3.2 Manteision dwyieithrwydd

Fe wyddom bellach, o’r gwaith ymchwil a wnaed gan addysgwyr mewn sawl gwlad yn y byd, fod plant dwyieithog yn fwy galluog ac yn fwy hyblyg yn ieithyddol. Nid yw plant llai galluog yn dioddef mewn unrhyw ffordd trwy dderbyn eu haddysg yn y Gymraeg yn bennaf chwaith. Fe wyddom hefyd bod plant sydd yn meddu ar ddwy iaith yn medru dysgu ieithoedd eraill yn haws, yn medru manteisio’n llawn ar fyw mewn cymuned ddwyieithog ac yn meddu ar gymhwyster pendant yn y farchnad am swyddi. Yn ogystal, rhoddir pwyslais mawr ar ddwyieithrwydd yn y gystadleuaeth am swyddi a phrentisiaethau yn lleol yma yn Sir Gaerfyrddin.

Mae plant sydd â dwy iaith yn tueddu i wneud yn well yn y cwricwlwm ac mae eu perfformiad ychydig yn well mewn profion ac arholiadau - mae hyn i'w weld mewn ymchwil i systemau addysg ddwyieithog mewn gwledydd cyn belled oddi wrth ei gilydd â Chanada, Unol Daleithiau America, Gwlad y Basg, Catalonia a Chymru. Mae dadansoddi canlyniadau arholiadau Cymru yn dangos i ni bod perfformiad plant sy'n cael eu dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyson uwch na pherfformiad eu cymheiriaid cyfrwng Saesneg.

## 3.3 Natur addysg Gymraeg mewn ysgolion uwchradd

Mae natur addysg Uwchradd Gymraeg yn wahanol i addysg yn yr ysgol gynradd lle mae plant yn cael eu trwytho yn y Gymraeg er mwyn gosod seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol. Y mae Saesneg yn cael lle amlwg yn addysg a bywyd cymdeithasol plant oedran Uwchradd gan adeiladau ar y seiliau cadarn a roddwyd yn yr ysgol gynradd ac ymestyn ar y defnydd o’r ddwy iaith. Mae dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol

Uwchradd yn gwneud llawer o ddefnydd o'r iaith Saesneg e.e. trwy gyflwyno termau, llyfrau, rhaglenni teledu a rhaglenni cyfrifiadurol, ac mae'r plant yn datblygu eu dealltwriaeth a'u dwyieithrwydd yr un pryd. Mewn arholiadau allanol mae byrddau arholi yn sicrhau bod copi Saesneg o bob papur arholiad ar gael ac mae cyfieithiadau yn cael eu rhoi o'r termau anarferol.

## 3.4 Addysg Uwch

Yn hanesyddol erys llawer o bryder bod astudio Gwyddoniaeth a Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystro mynediad i addysg uwch, yn arbennig yn Lloegr. Nid oes unrhyw brawf o hynny'n bodoli. Mae llawer o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin sy'n feddygon, yn fil-feddygon a deintyddion wedi astudio Gwyddoniaeth yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae disgyblion ysgolion Cymraeg megis Glantaf, Plasmawr, Bro Morgannwg, Llanhari, Y Cymer, Morgan Llwyd, Rhydywaun a Gartholwg yn flynyddol yn mynd i brifysgolion yng Nghymru a Lloegr i astudio cyrsiau meddygol, ac nid oes unrhyw brawf bod y ffaith eu bod wedi derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig wedi amharu ar eu cyfleoedd.

## 3.5 Costau

Nid yw'r Awdurdod yn darparu unrhyw gyllid ychwanegol i ganiatáu i'r ysgol gynnig pynciau trwy gyfrwng dwy iaith. Fe fyddai cynnig y cyrsiau yn y Gymraeg yn unig yn arbed arian o ran staffio'r Adran Wyddoniaeth yn benodol ac yn rhyddhau aelodau o'r adran honno i gynorthwyo gydag agweddau arall o'r cwricwlwm heb gostau ychwanegol i'r ysgol. Mae toriadau cyllid sylweddol ar y gorwel ac mae'r angen i ddarparu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ddim yn gost-effeithiol.

## 3.6 Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

Cyfeiriwch at **Atodiad A** am ragor o wybodaeth ar yr asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

## 3.7 Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Ni ragwelir unrhyw effaith ar y Gymuned gan bod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin eisoes yn chwarae rhan bwysig yn y Gymuned honno ac ni fyddai unrhyw newid yn y drefn.

## 3.8 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyfeiriwch at **Atodiad B** am ragor o wybodaeth ar yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

# 4. Ymgynghori a'r Broses Statudol

## 4.1 Y Broses Ymgynghori.

Bydd yr ymgynghoriad ar y cynnig hwn yn dilyn canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 4.2 Gyda phwy y byddwn ni'n ymgynghori?

Bydd y ddogfen hon yn cael ei danfon at y rhanddeiliaid canlynol sydd â diddordeb, sef:

| | |
|---|---|
| Staff (Athrawon a Staff Ategol) Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin | Llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwaid Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin |
| Staff (Athrawon a Staff Ategol) ysgolion cynradd y dalgylch | Llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwaid ysgolion cynradd y dalgylch |
| Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin | Cynghorwyr Cymuned Caerfyrddin |
| Cynghorwyr Cyngor Sir Lleol | Comisiynydd y Gymraeg |
| Aelodau y cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli yr ardal | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgol Feistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) |
| Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) | Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT) |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (ASCL) | Undeb y GMB |
| UNSAIN | Yr ysgolion Uwchradd cyfagos yn Sir Gaerfyrddin |
| Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth | |
| Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T&G) | Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol |
| Cyfarwyddwyr Addysg yr holl Awdurdodau Cyfagos | Y consortiwm addysg rhanbarthol - ERW |
| Cyngor tref Caerfyrddin | Coleg Sir Gâr |
| Bwrdd Gwasanaethau Lleol | Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | Gweinidogion Cymru |
| Estyn | RHAG (rhieni dros addysg Gymraeg) |
| Partneriaeth Pobl Ifanc Sir Gâr | |

## 4.3 Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd modd ichi fynegi barn rhwng Hydref yr 19$^{eg}$, 2015 a Rhagfyr y 4$^{ydd}$, 2015.

Gallwch fynegi barn trwy ysgrifennu llythyr neu trwy lenwi'r ffurflen ymateb a geir yn **Atodiad C**. Dylai'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant (Mr R.A.Sully) eu derbyn erbyn canol dydd ar y 4$^{ydd}$ o Ragfyr, 2015 fan bellach, i'r cyfeiriad canlynol:

Mr R.A.Sully, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu drwy e-bost at: aaprma@sirgar.gov.uk

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn y cynnig.  Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol.  Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno isod.

## 4.4 Ymgynghori â disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin i gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir yn yr ysgol.  Bydd yr wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori yn llunio rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i Fwrdd Gweithredol y Cyngor i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## 4.5 Ystyried eich Sylwadau

O fewn 13 wythnos ar ôl y 4ydd o Ragfyr bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.  Hefyd bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael drwy wneud cais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn.  Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynnig.

Bydd y Cyngor Sir yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen gyda'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Cyngor Sir yn penderfynu mynd ymlaen gyda'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

## 4.6 Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i arddangos yn yr ysgolion a enwyd a'r rhai cyfagos yn yr ardal.  Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau staff (gall yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn cyfnod o 28 diwrnod.

## 4.7 Penderfynu ynghylch y Cynnig

Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig.  Gall y Cyngor Sir benderfynu i gymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

## 4.8 Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## 4.6 Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a'r amserlen fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Hydref 2015 | Dosbarthu'r ddogfen ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. |
| Rhagfyr 4ydd, 2015 | Y dyddiad cau ar gyfer derbyn barn ar y cynnig i gael eu derbyn gan yr Adran Addysg a Phlant. |
| Ebrill 2016 | O fewn 13 wythnos ar ôl y 4ydd o Ragfyr, 2015 bydd Adroddiad ymgynghori yn cael ei roi gerbron y Cyngor Sir a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Penderfynu mynd ymlaen i gyhoeddi'r hysbysiad statudol NEU fod y cynnig yn dod i ben.<br><br>Os penderfynir mynd ymlaen yna bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol ac ysgolion cyfagos yr ardal. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i rieni, gwarchedwaid ac aelodau staff.<br><br>Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.<br><br>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. |
| Mai 2016 | Diwedd y cyfnod statudol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu i gymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth ddod i benderfyniad bydd y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law. |
| Gorffennaf 2016 | Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu'r rhieni am y bwriad i weithredu'r cynnig.<br><br>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |

# 5. Y Casgliad

O ystyried yr holl bwyntiau a nodwyd yn y ddogfen hon, rhaid sylweddoli bod y newid eisoes yn digwydd. Mae llawer o'r disgyblion eisoes yn astudio Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion cynradd, cam naturiol yw parhau gyda'r addysg honno yn yr Uwchradd. Nid dysgu termau trwy un iaith yn unig fydd yn cael ei wneud ond bydd y 'model dwyieithog' yn cael ei datblygu ymhellach – model y bydd pob plentyn yn elwa'n aruthrol ohono.

Dyma gyfle, felly, i Sir Gâr i arwain y ffordd yng Ngorllewin Cymru ac i Fro Myrddin i greu hanes trwy sefydlu yr ysgol Gymraeg gyntaf yn Sir Gâr.

# 6. Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Categori iaith yr ysgol ar hyn o bryd, fel y nodwyd eisoes yw 2A. Serch hynny, mae disgrifiad 'Iaith yr Ysgol' fel y nodir ar dudalen 56 o Gynllun Strategol Addysg Gymraeg yr Awdurdod yn ddisgrifiad o ysgol categori CC – *'Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith.'* Gwahanol iawn yw'r disgrifiad 'Iaith yr Ysgol' a nodir wrth ddisgrifio ysgol categori 2A sef: *'Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol trwy ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol.'* Yn sicr, mae Bro Myrddin eisoes yn ysgol gategori CC ar sail 'Iaith yr Ysgol.'

Mae gwersi cyfrwng Saesneg (Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg) yn cyfrannu 36% o gwricwlwm disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3, rhwng 44% a 54% yng Nghyfnod Allweddol 4 a hyd at 79% yng Nghyfnod Allweddol 5. Gall hyn danseilio gallu'r unigolyn i ddatblygu i fod yn siaradwr naturiol a hyderus ddwyieithog ar draws yr holl feysydd astudio yn ogystal â gosod cynsail ei fod yn rhy anodd ac yn anaddas astudio rhai pynciau trwy'r Gymraeg. Gellir dadlau bod hyn hefyd yn tanseilio ethos Gymreig yr ysgol.

Fe fydd symud yr ysgol ar y continiwwm iaith yn adlewyrchu dyheadau'r Cyngor a dyheadau Llywodraeth Cymru fel y maent wedi eu nodi yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Polisi Iaith Sir Gaerfyrddin a'r Strategaeth Gymunedol Integredig. Bwriad y Cyngor yn ôl Cynllun Strategol Addysg Gymraeg 2014-17 yw cynyddu y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr. Fe fyddai newid categori iaith yr ysgol yn sicrhau hynny.

# 7. Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Asesu Effaith**

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau camwahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd.  Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

**Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.  Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o ddylunio polisïau a chyflwyno gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau yna gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol gan awdurdodau lleol i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu camwahaniaethu a hybu cydraddoldeb ynghylch hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu

cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd y sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

**Dull Sir Gaerfyrddin o Weithredu Effaith ar Gydraddoldeb**

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn ystyried effaith bosibl ei bolisïau a'i arferion arfaethedig ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen ategu pob cynnig gyda'r Asesiad o Effaith amgaeedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol yna mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

**Adrodd ar asesiadau**


Os yw'n amlwg o'r asesiad bod yr effaith debygol ar allu'r awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, yna bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

**Asesiad Cychwynnol ac Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldebau**

Mae'r asesiad cychwynnol (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisïau, swyddogaethau, gweithdrefnau a phenderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig, gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau, ar lefel gychwynnol o leiaf, a chwblhau asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldebau lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2); mae'n rhaid atodi'r asesiad gyda'r papurau cefndir a'r adroddiadau ar gyfer y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu.

**<u>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol</u>**



**Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldebau** **Atodiad 1**

<table>
<tr><td>Adran:<br><br>Addysg a Phlant</td><td>Wedi'i gwblhau gan (arweinydd):<br><br>Sharon James</td><td colspan="2">Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Mawrth 2015<br><br>Dyddiadau adolygu: N/A</td></tr>
<tr><td>Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad ariannol)</td><td colspan="3">YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN<br><br>NEWID MEWN CATEGORI IAITH O GATEGORI 2A I GATEGORI CC</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a ydy'n un newydd?</td><td colspan="2">Cynnig i newid categori iaith – Rhaglen Moderneiddio Addysg</td></tr>
<tr><td colspan="4">Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddarparu gwybodaeth wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestr yn unig)</td></tr>
<tr><td colspan="4">• Rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif<br>• Rhaglen Moderneiddio Addysg<br>• Canllawiau Llywodraeth Cymru – Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013<br>• Data CYBLD</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad a phwy fydd yn cael budd ohonynt.</td><td colspan="3">Cynnig yr Awdurdod Addysg yw newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin o gategori 2A i gategori CC</td></tr>
<tr><td>Mae'n ofynnol fod y Cyngor yn rhoi "sylw dyledus" i'r canlynol yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:-</td><td>2. Beth fydd yr effaith ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd?<br><br>Nodwch uchel (U) canolig (C), isel (I),</td><td>3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob un o'r grwpiau/nodweddion gwarchodedig?</td><td>4. Os oes effaith negyddol anghymesur pa ffactorau lliniarol ydych chi wedi'u hystyried?</td></tr>
</table>

| **(1)** dileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;<br>**(2)** hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a<br>**(3)** meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau<br>(gweler y canllawiau) | | **dim effaith (D) ar gyfer pob un.** | **Risgiau** | **Effeithiau cadarnhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion gwarchodedig** | **Oed** | C | Risg niwtral | | |
| | **Anabledd** | C | Risg niwtral | Ar hyn o bryd mae 16.4% o ddisgyblion yr ysgol ac anghenion dysgu ychwanegol, fe fydd cefnogaeth ddigonol ar gael i'r disgyblion hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| | **Ailbennu rhywedd** | D | Risg niwtral | | |
| | **Hil** | D | Risg niwtral | | |
| | **Crefydd neu Gred** | D | Risg niwtral | | |
| | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | D | Risg niwtral | | |
| | **Cyfeiriadedd Rhywiol** | D | Risg niwtral | | |
| | **Rhyw** | D | Risg niwtral | | |
| | **Yr Iaith Gymraeg** | C | Risg niwtral | Fel rhan o'r cynnig fe fydd categori iaith yr ysgol yn cael ei newid i CC a fydd yn cefnogi gweledigaeth a nod y Cyngor ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg fel y'i nodir yn Cynllun Strategol yr Iaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin 2014-2017 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Unrhyw faes arall** | D | Risg niwtral | | |

| | |
|---|---|
| **5. A oes unrhyw ymgynghori/cysylltu wedi digwydd o ran y nodweddion gwarchodedig priodol ?** | **OES** x☐ **NAC OES** ☐<br><br>Fe fydd ymgynghoriad anffurfiol a ffurfiol yn cael ei gynnal fel y nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) |

**6. Pa gam/gamau a gymerir i leihau'r effaith negyddol anghymesur, os bydd rhai?** Sicrhau bod rhieni, staff a llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth lawn o bob cam o'r ymgynghoriad.

**7. Caffael**

**Ar ôl coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau caffael i'r gweithgaredd, y cynnig neu'r gwasanaeth.**

**Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor pellach.** N/A

**8. Adnoddau Dynol**

**Ar ôl coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau Adnoddau Dynol i'r gweithgaredd, y cynnig neu'r gwasanaeth?** Dim goblygiadau staffio

| | | |
|---|---|---|
| **9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6 a oes angen cynnal asesiad manwl o effaith y swyddogaeth/polisi/gweithdrefn/arfer neu benderfyniad?** (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un elfen uchel wedi'i nodi yn adran 2) | **OES** ☐ | **NAC OES** x☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymeradwywyd gan:**<br><br>Pennaeth y Gwasanaeth | **Gareth Morgans** | **Dyddiad: Mehefin 2015** |

## Templed ar gyfer Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldebau            Atodiad 2

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Gweler yr asesiad cychwynnol o'r effaith |
| **Wedi'i gwblhau gan (arweinydd):** | |
| **Dyddiad yr asesiad manwl:** | |
| **Y maes a asesir: (*Polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad ariannol)*** | Gweler yr asesiad cychwynnol o'r effaith |
| **Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad yma yn bodoli'n barod neu a ydy'n un newydd** | Gweler yr asesiad cychwynnol o'r effaith |

| | |
|---|---|
| **1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, neu weithdrefn a phwy fydd yn cael budd ohonynt.** | Gweler yr asesiad cychwynnol o'r effaith |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2. Rhestrwch unrhyw ddogfennau, tystiolaeth, ymchwil a ddefnyddiwyd i ddarparu gwybodaeth yn rhan o'r asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldeb.** (Mae'n rhaid i hyn gynnwys y data perthnasol a ddefnyddiwyd yn yr asesiad hwn**)** | | | | |
| **3. A oes unrhyw ymgynghori/cysylltu wedi digwydd o ran y nodweddion gwarchodedig er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer yr asesiad hwn?** (rhowch fanylion ynghylch y dull ymgynghori a'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw) | | | | |
| **4. Beth yw'r union effaith/effaith debygol?** | | | | |
| **5. Pa gamau y bwriedir eu cymryd i ddelio â'r effaith? *(Mae angen i'r camau gweithredu fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn seiliedig ar ganlyniadau)*** | **Beth rydym yn mynd i'w wneud** | **Pwy fydd yn gyfrifol** | **Pryd fydd y gwaith yn cael ei gwblhau** | **Sut y byddwn ni'n gwybod bod ein hamcan wedi'i gyflawni** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| **6. Sut y caiff y camau gweithredu eu monitro?** | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cymeradwywyd gan**:<br><br>Pennaeth y Gwasanaeth | | **Dyddiad:** | |

Diolch ichi am gwblhau'r asesiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Asesu Effaith, cysylltwch â'r canlynol -

Y Tîm Polisi a Phartneriaeth

Adran y Prif Weithredwr

01267 22(4914) / (4676)

cydraddoldeb@sirgar.gov.uk

**Ar ôl cwblhau'r asesiad a fyddech cystal â'i anfon i'r cyfeiriad e-bost uchod.**

# 8. Atodiad C - Pro-fforma Ymateb

Darparwch eich sylwadau ar y cynnig ynghylch categori iaith y dyfodol i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Eich sylwadau:

| |
|---|
| |

A oes gennych unrhyw faterion eraill yr hoffech eu dwyn i'n sylw?

| |
|---|
| |

☐ Ticiwch y blwch os hoffech gael gwybod am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori.

Llofnod: ____________________

Enw: ____________________

Cyfeiriad: ____________________

____________________

____________________

Safle / Categori yr ymatebydd (e.e. rhiant) ____________________

Cod post: ____________________

Dyddiad: ____________________

**Sylwch, oni bai eich bod yn nodi fel arall, bydd eich sylwadau yn agored i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.**

Os wnewch chi ddadgysylltu y ffurflen hon a'i dychwelyd i: Mr. R. A. Sully, Cyfarwyddwr – Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu E-bostiwch i **aaprma@sirgar.gov.uk** erbyn **4ydd o Ragfyr 2015.**